# TGAU Cymraeg Iaith Uned 3

## Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

# Hamdden ac Antur

## Cymraeg Iaith Uned 3

## Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd

## Hamdden ac Antur

Mae saith darn darllen yn yr Uned hon, pob un ohonynt yn ymwneud â'r thema Hamdden ac Antur. Mae rhai ohonynt yn destunau pytiog ac eraill yn ddi-dor a mwy estynedig tra mae rhai yn destunau cymysg. Ceir mathau o destun/ysgrifennu **trafodaethol, cyfarwyddiadol a pherswadiol** yn unol â gofynion y papur hwn. Cyflwynir y wybodaeth ynddynt mewn amrywiol ffyrdd ac mae'r elfen o her yn amrywio ynddynt. Gan mai papur di-haen yw hwn rhaid sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael cyfle i ymateb i bob un o'r cwestiynau**.** Mae amrywiaeth o gwestiynau, rhai ohonynt ar ffurf aml-ddewis, eraill yn gofyn am frawddegau neu atebion mwy estynedig.

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddehongli/dadansoddi, cywain ac adalw gwybodaeth, cyfuno/cymharu gwybodaeth, ac ymateb yn briodol mewn amrywiol ffyrdd er mwyn ateb y cwestiynau. Bydd gofyn iddynt ddefnyddio amrywiol sgiliau a strategaethau yn ôl y gofyn wrth ddarllen y darnau er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus (cip, llithr a chraff ddarllen). Dylent hefyd fod yn gyfarwydd â nodweddion y gwahanol fathau o destun/ysgrifennu.

Pwysleisir yr angen i ddarllen y darnau darllen a'r cwestiynau'n ofalus er mwyn ateb y cwestiynau'n gywir.

### Darn Darllen 1: Amser hamdden – amser gwario?

Darn pytiog yw'r darn hwn, sydd mewn dwy ran lle gall yr ymgeiswyr gip/llithr ddarllen i gywain y wybodaeth angenrheidiol yn weddol gyflym o'r rhestr a'r graffiau. Mae'r rhan gyntaf yn nodi beth sy'n gwneud plant yn hapus ac yn cyflwyno rhestr o ganrannau y rhai sy'n dweud hyn. Ceir cwestiwn aml-ddewis syml yn gofyn am rai o'r canrannau yn y darn cyntaf, ond pwysleisir bod angen bod yn ofalus wrth gasglu'r wybodaeth er hynny. Mae'r ail gwestiwn yn un aml-ddewis hefyd ac yn seiliedig ar yr ail ran a rhaid yma nodi un ateb cywir yn unig. Mae'r trydydd cwestiwn yn gofyn i'r ymgeiswyr feddwl pa un ai mwy neu lai y mis roedd plant Cymru yn ei wario ar gemau cyfrifiadur a ffonau symudol. Felly rhaid edrych yn fanwl ar y ddau graff.

### Darn Darllen 2: Canllawiau gweithgarwch corfforol

Mae'r darn hwn yn destun cymysg lle ceir gwybodaeth ar ffurf brawddegau/paragraffau di-dor yn ogystal â gwybodaeth fwy pytiog ar ffurf pwyntiau bwled. Mae lluniau yma o rai gweithgareddau corfforol hefyd sy'n gwneud y daflen ffeithiau gan yr Adran Iechyd yn fwy deniadol. Rhoddir gwybodaeth yma ynghyd ag enghreifftiau o weithgareddau, ond mae'r pwyslais ar yr hyn y dylai plant a phobl ifanc ei wneud er mwyn gwella iechyd ayyb. Mae'r iaith ffeithiol, ffurfiol yn gyfarwyddiadol ac yn berswadiol mewn mannau, sy'n addas ar gyfer taflen swyddogol o'r fath.

Mae cwestiwn A4 yn gofyn i'r ymgeiswyr egluro pam mae gweithgarwch corfforol yn fanteisiol, a gellir cael y wybodaeth yn weddol rwydd o'r darn. Mae ail ran y cwestiwn yn gofyn iddynt egluro sut mae modd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llonydd am lai o amser. Eto mae'n weddol rwydd darganfod y wybodaeth yma o edrych am y cliwiau yn y

brawddegau. Gofynnir i'r ymgeiswyr egluro hyn yn eu geiriau eu hunain hyd y bo modd, yn hytrach na chopïo'n slafaidd o'r darn darllen.

**Darn Darllen 3: Beth ydy nodweddion chwaraeon eithafol?**
Yma, ar ffurf pwyntiau bwled syml, ceir ychydig o nodweddion chwaraeon eithafol.

Mae cwestiwn A6 yn gofyn i'r ymgeiswyr chwilio a dehongli gwybodaeth er mwyn egluro mewn brawddegau llawn beth sy'n gwneud chwaraeon eithafol yn wahanol i chwaraeon traddodiadol.

**Darn darllen 4: Chwarae plant ydy chwaraeon eithafol!**

Testun di-dor ydy darn darllen 4. Yma mae'r awdur yn trafod chwaraeon eithafol, ac mae'r pennawd ynddo'i hun yn awgrymu agwedd goeglyd / ysgafn yr awdur at y pwnc. Mae yn cymharu'r elfen o her ac o berygl oedd yn gysylltiedig â'r math hwn o chwaraeon yn y 60au a'r hyn sydd heddiw, ac mae'n rhoi ei farn. Am 3 marc gofynnir i'r ymgeiswyr yng nghwestiwn A7 i drafod barn yr awdur gan roi rhesymau o'r darn. Mae'r cynllun marcio yn cynnig rhai atebion posibl, ond yn fwyaf arbennig y prif bwynt a ddisgwylir yw ysgafnder yr awdur ynglŷn â'r chwaraeon heddiw a'r ffaith bod y ddelwedd yn bwysicach ayyb. Er bod angen manylder, ni ddisgwylir ateb hir iawn, a dylid ystyried mai 3 marc sydd yma.

**Darn darllen 5: Antur: Ras Antur Cymru**

Testun cymysg ydy'r darn hwn, ond gyda'r rhan fwyaf ohono yn bytiog, gyda ffeithiau byrion unigol a phwyntiau bwled. Rhoddir gwybodaeth am ras Antur Cymru, a cheir dyfyniad gan un o drefnwyr y ras.

Ceir cwestiwn amlddewis am 1 marc ac yna, mae cwestiwn A9 yn gofyn iddynt ddweud beth fydd y timau o dramor yn ei wneud ar wahân i rasio, a hynny eto am 1 marc.

**Darn darllen 6: Gwrthwynebu agor canolfan rafftio dŵr gwyn**
**Darn darllen 7: Penwythnos yng Nghaerdydd**

Er mwyn ateb cwestiwn A10, rhaid i'r ymgeiswyr ddarllen y ddau ddarn hyn, dau lythyr, sy'n destunau estynedig di-dor, yn ofalus. Mae'r elfen o her yn fwy yma gan fod angen darllen a deall pwrpas y darnau ac agweddau'r awduron er mwyn gallu cymharu'r ddau yn effeithiol. Disgwylir iddynt allu cyfeirio at rannau penodol o'r ddau destun er mwyn cefnogi eu pwyntiau a'u rhesymau. Mae'r cynllun marcio yn cynnig pwyntiau enghreifftiol yn ogystal â meini prawf cymharu cyffredinol. Rhoddir 10 marc am y cwestiwn hwn.

# Darnau Darllen

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

**Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

# HAMDDEN AC ANTUR


Mae 7 o ddarnau darllen yn yr Uned hon. Darllenwch bob un yn ofalus ac atebwch y cwestiynau.


**Darn Darllen 1**

## Amser Hamdden – amser gwario?

Mae 76% o blant Cymru yn berchen ar iPod neu chwaraeydd MP3, ond nid ydynt yn lawrlwytho cymaint o ganeuon o'r we â phlant o ardaloedd eraill. 41% o blant Cymru sy'n gwneud hynny tra bod 52% o blant Llundain yn lawrlwytho caneuon yn gyson.

| Beth sy'n gwneud plant yn hapus? | |
|---|---|
| • Chwarae gyda ffrindiau (83.7%)<br>• Eu pen-blwydd (82.3%)<br>• Treulio amser gyda'r teulu (79.6%)<br>• Y Nadolig (75.3%)<br>• Eu diddordebau (74%)<br>• Gwylio ffilm (67.2%)<br>• Bod yn glên wrth rywun arall (64.5%)<br>• Gemau cyfrifiadur (64%)<br>• Bwyta hoff bryd bwyd (62.3%)<br>• Chwarae gyda theganau neu declynnau (61.6%) | • Darllen llyfr (61%)<br>• Chwarae y tu allan (58%)<br>• Siocled (54.9%)<br>• Gwario arian poced (38.4%)<br>• Yr ysgol (36.5%)<br>• Mynd am dro (36.3%)<br>• Chwarae ar y ffôn/tecstio (27.8%)<br>• Mynd ar safleoedd gwe i gymdeithasu (20.9%) |



Darn Darllen 2

# Canllawiau gweithgarwch corfforol

## PLANT A PHOBL IFANC 5-18 OED



1. Dylai plant a phobl ifanc wneud gweithgarwch corfforol cymedrol neu weithgarwch sy’n defnyddio mwy o egni am o leiaf 60 munud a hyd at sawl awr y dydd.

2. Dylid cyflawni gweithgareddau sy’n defnyddio mwy o egni, gan gynnwys y rheini sy’n cryfhau’r cyhyrau a’r esgyrn, o leiaf dri diwrnod yr wythnos.

3. Dylai plant a phobl ifanc fod yn llonydd (ar eu heistedd) am gyn lleied o amser â phosibl am gyfnodau estynedig.

### Enghreifftiau o weithgarwch corfforol sy’n bodloni’r canllawiau:

Bydd gweithgareddau corfforol cymedrol yn gwneud i blant gynhesu ac anadlu’n drymach ac yn gwneud i’w calonnau guro’n gyflymach, ond dylent allu cynnal sgwrs o hyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- mynd ar gefn beic
- gweithgareddau ar y maes chwarae

Bydd gweithgareddau corfforol sy’n defnyddio mwy o egni yn gwneud i blant gynhesu ac anadlu’n llawer trymach ac yn gwneud i’w calonnau guro’n gyflym, gan ei gwneud yn fwy anodd iddynt gynnal sgwrs. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- rhedeg yn gyflym
- chwaraeon fel nofio neu bêl-droed

Gall ffyrdd o sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llonydd am gyn lleied o amser â phosibl gynnwys y canlynol:

- lleihau faint o amser hamdden a dreulir yn gwylio’r teledu neu’n defnyddio cyfrifiadur neu gemau fideo
- torri cyfnodau o fod yn llonydd drwy gerdded rhan o’r ffordd yn lle mynd ar daith hir mewn bws neu gar

### Beth yw manteision bod yn egnïol am o leiaf 60 munud bob dydd?

- Mae’n gwella iechyd cardiofasgwlaidd.
- Mae’n cynnal pwysau iach.
- Mae’n gwella iechyd yr esgyrn.
- Mae’n gwella hunanhyder.
- Mae’n ffordd o ddysgu sgiliau cymdeithasol newydd.

Am ragor o wybodaeth: *Dechrau Egnïol, Dyfodol Egnïol: Adroddiad ar Weithgarwch Corfforol a’r Manteision Iechyd gan Brif Swyddogion Meddygol Pedair Gwlad Prydain* (2011)

**Darn Darllen 3**

# Beth ydy nodweddion chwaraeon eithafol?

- *Maen nhw'n chwaraeon peryglus ac yn aml yn cynwys cyflymder uchel, uchder, blinder ffisegol, offer arbenigol a styntiau trawiadol.*



- *Anaml iawn y byddan nhw'n cael eu haddysgu mewn ysgolion.*



- *Bydd athletwyr eithafol yn dysgu eu crefft ar eu pen eu hun ac efallai'n mynd at hyfforddwr ymhellach ymlaen.*
- *Maen nhw'n rhyw fath o brotest yn erbyn chwaraeon traddodiadol.*
- *Maen nhw'n tueddu i fod yn weithgareddau i unigolion yn hytrach na thimau.*
- *Nid pobl ifanc yn unig sy'n cymryd rhan ynddyn nhw ond mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn tueddu i fod yn iau na'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon traddodiadol.*



**Darn Darllen 4**

**CYLCHGRAWN 'LLAIS I BAWB'**

**Llais i bawb** Haf 2012

# Chwarae plant ydy chwaraeon eithafol!

Yr elfen o berygl sy'n denu pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon eithafol medden nhw. Ond pa mor beryglus ydyn nhw heddiw? Onid oes gan bawb offer diogelwch i fyny at eu clustiau, heb sôn am dîm diogelwch fel cynffon y tu ôl iddyn nhw! Mae hofrennydd sy'n llawn dop o offer meddygol yn dilyn y rhai sy'n cymryd rhan yn yr *Xtreme Verbier!* Os felly, dydy chwaraeon eithafol ddim yn beryglus!

Roedd hi mor wahanol yn yr 1960au pan fyddai nenblymio yn cael ei wneud gan herfeiddwyr tlawd yn defnyddio hen barasiwtiau'r awyrlu! Yng ngeiriau un o'r dynion mentrus, 'Roedd yn brifo fel y diawl ac roeddech yn mynd ar drugaredd y gwynt nes i chi grashio i'r ddaear a brifo eto! Ond erbyn hyn, mae'r rhai sy'n neidio yn cael cyflogau uchel a dim ond wyth naid y dydd maen nhw'n eu gwneud. Maen nhw'n talu pobl eraill am gario eu parasiwt iddyn nhw! Mae fel gwyliau!'

Na, maen rhaid cyfaddef bod y chwaraeon mwyaf eithafol yn ddiniwed o'u cymharu â phrofiadau'r anturiaethwyr cynnar.

Yn fy marn i, daw llawer o'r heip sy'n perthyn i chwaraeon eithafol o'r diwydiant sydd wedi datblygu o'u hamgylch.

Caiff y sianel *Extreme Sports*, er enghraifft, ei gwylio g tua 20 miliwn ar draws Ewrop, ond fyddai'r rhan fwyaf o'r rhain ddim yn mentro'n agos at eirfwrdd.

A dyna i chi'r holl ddillad a diodydd sy'n cael eu gwerthu gan gwmniau fel yr *Extreme Sports Company*! Yn ystod eira mawr 2010 roedd pobl yn heidio i siopau mynydda i brynu dillad cynnes ac yn talu tua £50 am bâr o fenig, dim ond i deithio mewn car! Roedden nhw'n rhan o'r ddelwedd – gyda'r got Gore-Tex ddrutaf. Os am ffordd hawdd o wneud arian, agorwch siop ddillad chwaraeon eithafol ac fe wnewch eich ffortiwn! Mae ymddangosiad mor bwysig!



Darn Darllen 5

## Antur: Ras Antur Cymru

Roedd anturiaethwyr o Ffrainc, Denmarc, Gweriniaeth Tsiec, Sweden, Sbaen, Yr Iseldiroedd, Colombia, yr Ariannin a Gogledd America yng Nghymru ym mis Awst.

### Pam?

**Ras Antur Cymru**

| | |
|---|---|
| Hyd: | 66 Km |
| Amser: | 5 diwrnod |
| Y digwyddiad cyntaf: | Dydd Sadwrn, 9 Awst, rafftio dŵr gwyn yng Nghaerdydd.<br>**Yna...**<br>Dydd Sul, 10 Awst, teithio i'r gogledd a gwersylla dros nos. |
| Dechrau'r ras: | Dydd Llun, 11 Awst, Castell Caernarfon |
| Gorffen y ras: | Dydd Gwener, 15 Awst, Caerdydd |

Gan mai ras antur oedd hon, roedd rhaid i'r anturiaethwyr gymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau anturus:

- **caiacio**
- **beicio**
- **cyfeiriannu (o dan y ddaear mewn un lle!)**
- **trecio**
- **rhedeg**
- **zipio ar draws gwifren wib.**

- Roedd rhaid i'r anturiaethwyr ffeindio'u ffordd a rasio ar draws mynyddoedd, ar hyd afonydd, o gwmpas cestyll, o dan y ddaear ac o gwmpas tref. Roedd hi'n daith ddiddorol a heriol.
- "Rydyn ni wedi ceisio mynd â'r ras i rai o ardaloedd gorau Cymru, lle mae golygfeydd hardd, hanes a diwylliant diddorol. Felly, bydd y timau o dramor nid jyst yn rasio ond byddan nhw'n gweld lleoedd enwog fel cestyll - ac, os ydyn nhw'n lwcus, efallai draig!" meddai un o'r trefnwyr.
-



**Darn Darllen 6**

Papur Bro Cwm Alaw - Eich llythyrau

## GWRTHWYNEBU AGOR CANOLFAN RAFFTIO DŴR GWYN

Llety'r Eos
Pentre Cennin

Yn dilyn y penawdau torcalonnus a glywsom ar y newyddion neithiwr teimlaf ei bod yn rheidrwydd arnaf i ysgrifennu'r llythyr hwn yn gwrthwynebu agor canolfan rafftio dŵr gwyn ar afon Alaw ym Mhentre Cennin. Ie, cyfeirio at ddamweiniau dringo, nenblymio a neidio bynji a wnai'r bwletinau, ond cefais fy atgoffa o benawdau eraill yr ydym wedi eu clywed fel, 'Prydeiniwr arall yn marw ar ôl i'w rafft droi drosodd yn Ffrainc, wythnos union wedi i ddisgybl 9 oed gael ei ladd mewn damwain ar afon yn ne Lloegr'. Ac roeddech chi, fel minnau, wedi dilyn yr hanes gyda braw.

Fel pob chwarae eithafol mae'n rhaid derbyn bod rafftio dŵr gwyn yn beryglus. Er bod rheolau diogelwch llawer mwy llym erbyn hyn, ac er bod cwmnïau'n cadw at y rheolau, mae damweiniau'n parhau i ddigwydd.

Y gwir amdani ydy na fedrwch chi gael gwared ar beryglon amgylcheddol fel creigiau o dan y dŵr, coed wedi syrthio a rhaeadrau uchel. Rydw i'n cyfaddef bod afonydd wedi cael graddau perygl erbyn hyn ac mae cwmnïau'n osgoi mannau maen nhw'n gwybod sy'n beryglus. Ers talwm, llyncodd afon Colorado ymgyrchoedd cyfan gan adael dim ond darnau o gychod. Bellach, nid yw'r rhannau hynny o'r afon yn cael eu defnyddio ac mae cannoedd o bobl yn rafftio'n ddiogel arni. Wedi dweud hynny, chwe gradd sydd ac mae'r ail radd, sef y nesaf at y fwyaf hawdd, yn lle gydag ychydig o greigiau a gwaith llywio. Ydy hynny, mewn difri', yn ddiogel i rywun di-brofiad?

A beth am y chweched radd sy'n cael ei disgrifio fel 'Dŵr gwyn peryglus iawn, tonnau a chreigiau anferth, perygl bywyd - angen sgil eithafol'? Yn wir i chi, dyna'r diffiniad o rannau o afon Alaw lle byddai pobl yn rafftio yn y ganolfan newydd hon. Ydyn ni wir eisiau rafftio mor eithafol yn ein hardal?

Ond mae rhesymau eraill, hollol anfaddeuol, dros ddamweiniau – sef pobl yn camymddwyn. Rydym wedi clywed digon am y rhai sy'n dangos eu hunain trwy sefyll ar greigiau lle gall eu traed fynd yn sownd neu, yn waeth byth, y ffyliaid sy'n ceisio rafftio pan maen nhw wedi meddwi! Mae eraill yn esgeulus wrth wisgo'r offer diogelwch ac yn credu y gallant wneud hebddynt! Duw a'u helpo!

Mater arall sy'n achosi pryder i ni yn ardal afon Alaw yw y bydd yr amgylchedd yn dioddef. Ymhellach i lawr yr afon mae llynnoedd pysgota cyfoethog iawn. Bydd yr holl aflonyddu ar y dŵr yn sicr o effeithio ar y pysgod a bydd hynny yn effeithio ar economi'r ardal. Bydd llwybrau cerdded yn cael eu creu ar lannau'r afon hefyd a bydd hyn yn erydu'r tir. Yn wir, bydd presenoldeb yr holl bobl yn sicr o amharu ar gynefinoedd adar ac anifeiliaid gwyllt.

Os ydych yn dymuno dangos eich gwrthwynebiad i'r cynllun arfaethedig, ymunwch â ni yn y brotest! Dyma'r manylion:

Amser a dyddiad: Dydd Sadwrn, Mawrth 5ed am 2 y p'nawn.

Lleoliad: Neuadd y Pentref, Pentre Cennin

Siaradwyr gwadd: Y Cynghorydd Alwyn Hughes a'r Ymgeisydd Seneddol Wilff Thornton.

Edrychaf ymaen at eich gweld yno yn llu.

Yn gywir,

Huw Griffiths

**Darn Darllen 7**

Bro Dawel,
Llanaber,
Ynys Môn
LL58 2BS

Mehefin 12fed 2012

Teithiau Menai,
Porth Cybi,
Ynys Môn
LL58 4DY

Annwyl Syr/Fadam,

**Parthed: Penwythnos hir yng Nghaerdydd**

Ysgrifennaf atoch i gwyno am y gwyliau a drefnwyd gennych chi i mi a'm gwraig yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Roeddem yn edrych ymlaen at wyliau arbennig i ddathlu pen-blwydd ein priodas ac roeddwn wedi dewis eich cwmni chi i sicrhau ein bod yn cael amser i'w gofio. Yn anffodus hoffwn anghofio'r gwyliau hyn cyn gynted ag y bo modd.

Yn gyntaf cafodd ein hediad o faes awyr Ynys Môn ei ohirio am bedair awr. Wrth gwrs, roedden ni'n hynod o hwyr yn cyrraedd Caerdydd wedyn, a doedd hi ddim yn hawdd iawn cael trafnidiaeth o'r maes awyr i'r gwesty. Wnaethoch chi ddim esbonio bod y maes awyr mor bell o ganol y ddinas. Byddai teithio ar y trên wedi bod yn llawer mwy cyfleus yn y diwedd.

Wedi i ni gyrraedd y gwesty roedden nhw wedi rhoi'n hystafell foethus ni i rywun arall a bu'n rhaid i ni fodloni ar ystafell lawer yn llai heb olygfa o'r Bae fel yr addawyd i ni. Serch hynny, bu'n rhaid i ni dalu'r pris llawn. Ac am y brecwast! Brecwast llawn Cymreig oedd eich addewid chi yn y llyfryn gwyliau.

Brecwast oer, llawn saim gawson ni. Doedd dim dewis o gwbl ac roedd staff y gwesty yn ddi-wên a digroeso. Nid dyma'r math o wasanaeth y disgwyliwn i ei weld mewn gwesty pedair seren yn y brifddinas.

Cawsom amser da yn y cyngerdd yng Nghanolfan y Mileniwm ac roeddem ni'n edrych ymlaen at gael diod yn y gwesty cyn noswylio. Eto cawsom ein siomi. Roedd y bar yn llawn dop â chefnogwyr tîm pêl-droed y ddinas. Roedd eu sŵn yn ofnadwy a doedd dim modd i mi a'm gwraig sgwrsio, heb sôn am ddod o hyd i le i eistedd. Yn wir, roedd y sŵn i'w glywed o'n hystafell! ‘Gwesty distaw ar gyfer teithwyr sy'n disgwyl gwasanaeth o safon uchel’ oedd y disgrifiad yn eich llyfryn gwyliau chi. Fydden ni ddim wedi dewis aros yno petaen ni'n gwybod mai lle i hwliganiaid pêl-droed ddiota tan oriau mân y bore ydoedd.

Er fy mod yn derbyn nad eich bai chi oedd yr awyren hwyr, rwy'n credu y dylech chi esbonio wrth eich cwsmeriaid nad yw'r maes awyr yn gyfleus i ganol dinas Caerdydd o gwbl. Ar y llaw arall, fe addawoch chi y bydden ni'n cael ‘ystafell foethus mewn gwesty 4 seren o safon’, ond nid dyna gawson ni o gwbl. Hoffwn ad-daliad llwyr a iawndal am y siom a'r loes calon gafodd fy ngwraig a minnau. Yn wir, oni bai am y cyngerdd gwych yng Nghanolfan y Mileniwm byddai'r gwyliau hyn wedi bod yn ofnadwy. Byddaf yn meddwl ddwywaith cyn mentro i'r brifddinas eto ac os y gwnaf, ni fyddaf yn gofyn am eich cymorth chi i drefnu'r gwyliau.
Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir,
Dewi Jones

# Papur Enghreifftiol

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**2 awr**

SYLWEBAETH CWESTIYNAU

HAMDDEN AC ANTUR

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Atebwch y **ddau** gwestiwn yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 10 munud yn cynllunio
Adran B1 – tua 25 munud yn ysgrifennu
Adran B2 – tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Hamdden ac Antur**

Yn yr adran hon mae 7 darn am hamdden ac antur. Darllenwch bob darn yn ofalus ac atebwch y cwestiynau canlynol:

**Darn Darllen 1**

**AMSER HAMDDEN – AMSER GWARIO?**

A1. Beth sy'n gwneud plant yn hapus? [3]

Nodwch y canrannau o blant sy'n dweud mai'r pethau hyn sy'n eu gwneud yn hapus:

| | |
|---|---|
| Gemau cyfrifiadur | ☐ |
| Chwarae y tu allan | ☐ |
| Mynd ar safleoedd gwe i gymdeithasu | ☐ |
| Gwylio ffilm | ☐ |
| Darllen llyfr | ☐ |
| Siocled | ☐ |

A2. Faint y mis oedd plant Cymru yn ei wario ar ffonau symudol? [1]

Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch √ yn y blwch priodol.

| | |
|---|---|
| £7.00 | ☐ |
| £9.50 | ☐ |
| £11.55 | ☐ |
| £90.50 | ☐ |

A3. Oedd plant Cymru yn gwario **mwy** neu **lai** y mis ar gemau cyfrifiadur nag ar ffonau symudol? [1]

……………………………………………………………………………………………….....

**Darn Darllen 2**

**Canllawiau gweithgarwch corfforol**

A4. Yn y darn darllen mae gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gweithgarwch corfforol.

Eglurwch yn gryno yn eich geiriau eich hun:

- pam mae gweithgarwch corfforol yn fanteisiol

[2]

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

- sut mae modd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llonydd am lai o amser [2]

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

A5. Beth yw effaith gweithgareddau corfforol cymedrol ar blant? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Ei gwneud hi'n anodd cynnal sgwrs ☐

Gallu cysgu'n well ☐

Anadlu'n drymach nag arfer ☐

Anadlu'n llawer trymach nag arfer ☐

**Darn Darllen 3**

**Beth ydy chwaraeon eithafol?**

A6. Atebwch y cwestiynau hyn mewn brawddegau llawn.

1. Beth sy'n gwneud chwaraeon eithafol yn wahanol i chwaraeon traddodiadol? [3]

   ..........................................................................................................................

   ……………………………………………………………………………………………….

2. Pwy sy’n gwneud y chwaraeon eithafol hyn fel arfer? [2]

   ..............................................................................................................................

   ………………………………………………………………………………………………..

**Darn Darllen 4  Chwarae plant ydy chwaraeon eithafol!**

A7. Beth ydy barn yr awdur am chwaraeon eithafol? Pam mae'n dweud mai chwarae plant ydy chwaraeon eithafol? [3]

Cyfeiriwch at resymau o'r darn darllen i brofi hynny.

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

.....................................................................................................................................

**Darn Darllen 5**

**Antur: Ras Antur Cymru**

A8. Bydd yr anturiaethwyr yn cael llawer o brofiadau wrth ymweld â Chymru. Pa un o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Rafftio dŵr gwyn yng ngogledd Cymru ☐

Dringo'r Wyddfa ☐

Zipio ar draws gwifren wib ☐

Cwrdd â phrif weinidog Cymru ☐

A9. Ar wahân i rasio, beth fydd y timau o dramor yn ei wneud ?

…………………………………………………………………………………… [1]

**Darn Darllen 6 a 7**

**Gwrthwynebu Agor Canolfan Rafftio Dŵr Gwyn**

**Penwythnos yng Nghaerdydd**

A10. Mae awduron y ddau ddarn darllen wedi ysgrifennu llythyrau am bynciau penodol.

Trafodwch y ddau lythyr gan gymharu yr hyn sy'n **debyg / annhebyg** rhwng y ddau.

Dylech gyfeirio at y canlynol:

- rhesymau'r ddau awdur dros ysgrifennu eu llythyrau
- pwy fyddai darllenwyr eu llythyrau

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.

[10]

## ADRAN B (Ysgrifennu): 40 marc

*Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.*

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu'n gywir yn y ddau gwestiwn.

B1**. Neges e-bost at ffrind**

**Rydych chi'n ceisio perswadio ffrind i gymryd diddordeb mewn gweithgareddau hamdden / awyr agored.**

**Ysgrifennwch neges e- bost ato/ati yn disgrifio'n fanwl yr hyn sydd ar gael yn lleol ( ac mewn mannau eraill hefyd efallai) ac yn rhoi rhesymau pam y byddai'n fanteisiol iddo/iddi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn. [20]**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

CYNLLUN:

E- BOST

**B2.**

**Rydych wedi ymweld â lle arbennig gyda'ch ysgol**

**Ysgrifennwch adolygiad i'r safle gwe sy'n adolygu gwyliau ac atyniadau ar gyfer ymwelwyr, yn disgrifio'r ymweliad yn fanwl ac yn rhoi eich barn am yr hyn oedd ar gael ar eich cyfer. [20]**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o’r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy’n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

CYNLLUN:

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

ADOLYGIAD

# Cynllun Marcio

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 3**

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

**Cynllun Marcio**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

## Adran A (Darllen): 30 marc

**Hamdden ac Antur**

Yn yr adran hon mae 7 darn am hamdden ac antur. Darllenwch bob darn yn ofalus ac atebwch y cwestiynau canlynol:

**Darn Darllen 1**

**AMSER HAMDDEN – AMSER GWARIO?**

A1. Beth sy'n gwneud plant yn hapus? [3]

*(adalw gwybodaeth)*

Nodwch y canrannau o blant sy'n dweud mai'r pethau hyn sy'n eu gwneud yn hapus:

Hanner marc am bob ateb cywir hyd at 3 marc

| | |
|---|---|
| Gemau cyfrifiadur | 64% |
| Chwarae y tu allan | 58% |
| Mynd ar safleoedd gwe i gymdeithasu | 20.9% |
| Gwylio ffilm | 67.2% |
| Darllen llyfr | 61% |
| Siocled | 54.9% |

A2. Faint y mis oedd plant Cymru yn ei wario ar ffonau symudol? [1]

Pa **un** o'r canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

(*dehongli gwybodaeth)*

£9.50

A3. Oedd plant Cymru yn gwario **mwy** neu **lai** y mis ar gemau cyfrifiadur nag ar ffonau symudol? [1]

mwy

**Darn Darllen 2**

**Canllawiau gweithgarwch corfforol**

A4. Yn y darn darllen mae gwybodaeth a chyngor ynglyn â gweithgarwch corfforol. *(adalw a dehongli gwybodaeth)* [4]

Eglurwch yn gryno yn eich geiriau eich hun:

Atebion posibl – un marc yr un hyd at 2 ar gyfer pob cwestiwn.

- pam mae gweithgarwch corfforol yn fanteisiol

  gwella iechyd (cardiofasgwlaidd)
  cynnal pwysau iach
  gwella iechyd esgyrn
  gwella hunanhyder
  ffordd o ddysgu sgiliau cymdeithasol newydd

- sut mae modd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn llonydd am lai o amser

  lleihau faint o amser a dreulir yn gwylio'r teledu
  lleihau faint o amser a dreulir yn defnyddio'r cyfrifiadur /gemau fideo
  torri cyfnodau o fod yn llonydd drwy gerdded rhan o'r ffordd yn lle mynd ar daith hir mewn bws neu gar

A5. Anadlu'n drymach nag arfer am 1marc [1]

**Darn Darllen 3**

**Beth ydy nodweddion chwaraeon eithafol?**

A6. Atebwch y cwestiynau hyn mewn brawddegau llawn. Atebion tebyg i'r canlynol: (cywain a dehongli gwybodaeth)

1. Beth sy'n gwneud chwaraeon eithafol yn wahanol i chwaraeon traddodiadol?

   Un marc am bob pwynt dilys hyd at 3 marc [3]

   Oherwydd eu bod yn cynnwys cyflymder uchel, uchder, blinder ffisegol, offer arbenigol a styntiau trawiadol. Anaml iawn y byddan nhw'n cael eu haddysgu mewn ysgolion. Athletwyr eithafol yn dysgu eu crefft ar eu pen eu hunain. Tueddu i fod yn weithgareddau i unigolion yn hytrach na thimau.

2. Pwy sy'n gwneud y chwaraeon eithafol hyn fel arfer?

   Un marc am bob pwynt dilys hyd at 2 farc [2]

   Pobl ifanc ond nid pobl ifanc yn unig, ond maen nhw yn tueddu i fod yn iau na'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon traddodiadol. Unigolion yn hytrach na thimau.

**Darn Darllen 4**

**Chwarae plant ydy chwaraeon eithafol!**

A7. Beth ydy barn yr awdur am chwaraeon eithafol? Pam mae'n dweud mai chwarae plant ydy chwaraeon eithafol?

Cyfeiriwch at resymau o'r darn darllen i brofi hynny.

(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth a barn/rhagfarn awdur)
1 marc am bob pwynt dilys [3]

Gellir cyfeirio at rai o'r pwyntiau canlynol o'r darn darllen i brofi pwyntiau. (Prif bwynt – bod chwaraeon eithafol heddiw yn llai peryglus, bod mwy o gymorth ar gael a phobl eraill i wneud y gwaith peryclaf. Hefyd bod delwedd yn bwysicach.)

- Chwaraeon eithafol ddim yn beryglus (oherwydd yr offer diogelwch, hofrennydd ag offer meddygol).
- Mae fel gwyliau (heddiw) - gwahaniaeth rhwng 1960 a heddiw – dynion mentrus yn 1960 (herfeiddwyr tlawd, brifo...), ond erbyn hyn talu pobl eraill i gario eu parasiwt.

- Chwaraeon mwyaf eithafol yn ddiniwed o'u cymharu â phrofiadau'r anturiaethwyr cynnar.
- Yr heip yn dod o'r diwydiant teledu (cwmniau fel Extreme Sports)
- Delwedd – y dillad – ffordd hawdd o wneud arian. Mae'r awdur yn goeglyd/ cymryd y chwaraeon eithafol yn ysgafn. 'Agorwch siop ddillad chwaraeon eithafol ac fe wnewch eich ffortiwn Mae ymddangosiad mor bwysig!' (y defnydd o'r ebychnodau)

**Darn Darllen 5**

**Antur: Ras Antur Cymru**

A8. Bydd yr anturiaethwyr yn cael llawer o brofiadau wrth ymweld â Chymru. Pa un o'r canlynol sy'n gywir.? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. (dehongli gwybodaeth)

1 marc am sylw cywir sef zipio ar draws gwifren wib. [1]

.

A9: Ar wahân i rasio, beth fydd y timau o dramor yn ei wneud ? (adalw gwybodaeth) [1]

Un marc am ddweud - (*Ar wahân i rasio) byddan nhw yn gweld lleoedd enwog fel cestyll (ac efallai draig).*

**Darn Darllen 6 a 7. Gwrthwynebu Agor Canolfan Rafftio Dŵr Gwyn**

**Penwythnos yng Nghaerdydd**

*(Cyfuno a chymharu gwybodaeth. Adnabod agwedd / barn yr awdur.)*

A10. Mae awduron y ddau ddarn darllen wedi ysgrifennu llythyrau am bynciau penodol.

Trafodwch y ddau lythyr gan gymharu'r hyn sy'n **debyg / annhebyg** rhwng y ddau.

Dylech gyfeirio at y canlynol:

- rhesymau'r ddau awdur dros ysgrifennu eu llythyrau
- pwy fyddai darllenwyr eu llythyrau

Dylech gyfeirio at y testun i gefnogi eich pwyntiau.

[10]

Tebyg – y ddau yn mynegi pryder.

Gwahanol - darllenwyr gwahanol, yr un cyntaf yn fwy cyhoeddus a'r ail yn fwy personol.

Gellir sôn am bwyntiau megis y canlynol:

| Gwrthwynebu agor Canolfan Rafftio Dŵr Gwyn | Penwythnos yng Nghaerdydd |
|---|---|
| **Gwrthwynebu** agor canolfan rafftio dŵr gwyn ar afon Alaw ym Mhentre Cennin.<br>• Pryder bod rafftio dŵr gwyn yn beryglus – damweiniau'n parhau i ddigwydd.<br>• Gofyn y cwestiwn a ydyn nhw eisiau rafftio mor eithafol yn eu hardal nhw?<br>• Pryder bod damweiniau'n cael eu hachosi gan bobl sy'n camymddwyn – dangos eu hunain, esgeulus.<br>• Pryder y bydd yr amgylchedd yn dioddef. | **Cwyno** am wyliau a drefnwyd gan Teithiau Menai.<br>• Hediad o faes awyr Môn wedi ei ohirio am 4 awr. Hwyr yn cyrraedd Caerdydd.<br>• Maes awyr Caerdydd yn bell o ganol y ddinas.<br>• Wedi rhoi eu hystafell foethus i rywun arall, cael ystafell lai – talu'r pris llawn. Cwyno am y brecwast a'r staff.<br>• Y bar yn llawn cefnogwyr pêl-droed, sŵn yn ofnadwy (y disgrifiad o'r gwesty yn nodi mai gwesty distaw ar gyfer teithwyr sy'n disgwyl gwasanaeth o safon uchel ydoedd). |
| • Darllenwyr Papur Bro 'Cwm Alaw' (rhoi cyfle i'r darllenwyr ymateb i ddangos eu gwrthwynebiad i'r cynllun arfaethedig.) | • Trefnwyr gwyliau 'Teithiau Menai' (disgwyl cael ymateb /iawndal gan y cwmni am y gwyliau.) |

Gellir cyfeirio at bwyntiau perthnasol eraill.

*Mae'r cwestiwn hwn yn profi'r gallu i gymharu dau destun a dethol pwyntiau perthnasol i gefnogi hynny.*

| | |
|---|---|
| 0 marc | os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn |
| 1-2 marc | peth ymdrech i gymharu'r ddau destun yn fras |
| 3-4 marc | ymdrech eithaf da i gymharu'r ddau destun gyda rhai sylwadau perthnasol |
| 5-6 marc | cymharu'r ddau destun yn dda gyda sylwadau perthnasol – cynnwys ambell enghraifft/dyfyniad |
| 7-8 marc | cymharu'r ddau destun yn dda iawn gan gynnig rhai dyfyniadau /cyfeiriadau at y testun |

| | |
|---|---|
| 9-10 marc | cymharu'r ddau destun yn aeddfed – gan gynnig enghreifftiau/ dyfyniadau i gefnogi. |

**ADRAN B (Ysgrifennu) : 40 marc**

Atebwch y **ddau** gwestiwn canlynol.

Bydd 20 marc am gynnwys a threfn ac 20 marc am ysgrifennu’n gywir yn y ddau gwestiwn.

B1**. Neges e- bost at ffrind**

**Rydych chi’n ceisio perswadio ffrind i gymryd diddordeb mewn gweithgareddau hamdden/awyr agored.**

**Ysgrifennwch neges e-bost ato/ati yn disgrifio'n fanwl yr hyn sydd ar gael yn lleol (ac mewn mannau eraill hefyd efallai) gan roi rhesymau pam y byddai'n fanteisiol iddo/iddi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.**

**[20]**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o’r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy’n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

B2.

**Rydych wedi ymweld â lle arbennig gyda'ch ysgol.** **[20]**

**Ysgrifennwch adolygiad ar gyfer safle gwe sy'n adolygu gwyliau ac atyniadau ar gyfer ymwelwyr, yn disgrifio'r ymweliad yn fanwl ac yn rhoi eich barn am yr hyn oedd ar gael ar eich cyfer yno.**

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o’r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch canlynol cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy’n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN*<br>*(YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 3** | **5-6 marc**<br><br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br><br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **Band 2** | **3-4 marc**<br><br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br><br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br><br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br><br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi |

| | ***CYFATHREBU A THREFN***<br>***(YSTYR, PWRPASAU A DARLLENWYR, STRWYTHUR A THREFN)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| | | • Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |